# Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

## Cofnodion EOC(3)-12-08

**Dyddiad: Dydd Iau 2 Hydref 2008**
**Amser: 9.30am – 11.30am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Ann Jones (Cadeirydd), Dyffryn Clwyd
Eleanor Burnham, Gogledd Cymru
Helen Mary Jones, Llanelli
Nick Ramsay, Mynwy
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru

### Swyddogion yn bresennol

Tom Jackson, Clerc
Rita Phillips, Dirprwy Glerc
Helen Roberts, Cynghorydd Cyfreithiol
Steve Boyce, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

### Eraill yn bresennol

Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol
Steve Milsom, Pennaeth Dros Dro, Polisi Pobl Hyn a Gofal Tymor Hir, Llywodraeth Cynulliad Cymru
John Carter, Pennaeth Cangen Oedolion sy'n Agored i Niwed a Gofalwyr, Llywodraeth Cynulliad Cymru

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Bethan Jenkins. Roedd Helen Mary Jones yn dirprwyo ar ei rhan.

1.3 Croesawodd y Cadeirydd Nick Ramsay i'r pwyllgor a diolchodd i Mark Isherwood am ei waith.

1.4 Croesawodd y Cadeirydd Ddirprwy Glerc newydd y Pwyllgor, Rita Phillips, a diolchodd i'r cyn Ddirprwy Glerc, Claire Griffiths, am ei gwaith.'

### Eitem 2: Cynnig o dan Reol 10.37 o'r Rheolau Sefydlog i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer Eitem 4 - 6

2.1 Hysbysodd y Cadeirydd y pwyllgor o'i bwriad i symud y cynnig yn syth cyn Eitem 4.

### Eitem 3: Ymchwiliad i faterion pobl hyn

Papur: EOC(3)-12-08(p.1)

### 3.1 Ymatebodd y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol i gwestiynau gan y pwyllgor.

**Cam i'w gymryd:**

Y Dirprwy Weinidog i ysgrifennu at y pwyllgor yn dilyn awgrym y dylai cynrychiolydd o'r sector gwirfoddol fod yn rhan o Grwp Cydlynu Cenedlaethol Urddas mewn Gofal Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Y Dirprwy Weinidog i ysgrifennu i'r pwyllgor er mwyn darparu gwybodaeth ynghylch grantiau ar gyfer teleofal a roddir gan Lywodraeth y Cynulliad i awdurdodau lleol.

Cytunodd y pwyllgor i gynnal gweddill y cyfarfod yn breifat o dan Reol Sefydlog 10.37

### Eitem 4: Ymchwiliad i faterion sy'n effeithio ar weithwyr mudol yng Nghymru

4.1 Cytunodd y pwyllgor ar yr adroddiad.

### Eitem 5: Papur ar y Mesur Cydraddoldeb

5.1 Trafododd y pwyllgor y papur.

**Eitem 6: Ymchwiliad i faterion sy'n effeithio ar bobl hyn**

6.1 Trafododd y pwyllgor gylch gorchwyl yr ymchwiliad i faterion sy'n effeithio ar bobl hyn.

Gwasanaeth y Pwyllgorau
Hydref 2008